# Cynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

# Adroddiad Cryno o Adborth - Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

## Cynnwys


Cyflwyniad 3

Pwrpas yr ymgysylltiad 3

Ymateb cyffredinol 3

Themâu allweddol a nodwyd 4

- Cefnogi buddsoddiad yn y Rhyl 4
- Pryderon ynghylch gwerth am arian 4
- Parcio a mynediad 5
- Cyflwr adeiladau a blaen siopau 5
- Diogelwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol 6
- Cynnal a Chadw a Glendid 6
- Cysylltiad â’r promenâd a thwristiaeth 7
- Adfywio economaidd 7

Adborth cadarnhaol 8

Pwyntiau i’r Cyngor eu Hystyried 8

Casgliad 9

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

## Cyflwyniad

Ar 1 Gorffennaf 2026, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch y gwelliannau arfaethedig i'r parth cyhoeddus yng nghanol tref y Rhyl, er mwyn casglu barn trigolion, busnesau, ymwelwyr a budd-ddeiliaid ar y newidiadau arfaethedig i ganol y dref.

Gwahoddodd yr ymgynghoriad gyfranogwyr i ddarparu:

- Adborth cychwynnol ar y cynnig
- Awgrymiadau ynghylch yr hyn yr hoffent ei newid neu ei wella

Cafwyd cyfanswm o 55 o ymatebion, ac maent wedi cael eu dadansoddi i nodi'r prif themâu a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu.

## Pwrpas yr ymgysylltiad

Pwrpas yr ymgysylltiad oedd:

- Deall barn y cyhoedd ar y gwelliannau arfaethedig i'r parth cyhoeddus.
- Nodi unrhyw bryderon neu faterion y dylid eu hystyried cyn bwrw ymlaen â'r cynllun
- Casglu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ychwanegol a allai fod o fudd i ganol tref y Rhyl.
- Sicrhau bod barn trigolion a budd-ddeiliaid yn llywio datblygiad y prosiect ar gyfer y dyfodol.

## Ymateb cyffredinol

Cafwyd ystod eang o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu’r buddsoddiad yn y Rhyl ac yn cefnogi’r ymdrechion i wella ymddangosiad canol

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

y dref. Fodd bynnag, mynegodd nifer sylweddol o gyfranogwyr bryderon hefyd ynghylch yr heriau sylfaenol sy'n wynebu'r Rhyl, a p’un a fyddai’r cynllun arfaethedig yn mynd i’r afael â nhw.

Dangosodd yr adborth fod ymatebwyr yn awyddus iawn i groesawu dull cynhwysfawr o adfywio, gyda llawer yn tynnu sylw at yr angen am welliannau y tu hwnt i’r parth cyhoeddus ffisegol.

## Themâu allweddol a nodwyd

### Cefnogi buddsoddiad yn y Rhyl

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu’r buddsoddiad yn y Rhyl ac yn cydnabod yr angen i wella ymddangosiad canol y dref. Roedd sylwadau cadarnhaol yn cynnwys cefnogaeth i:

- Wella ardal Tŵr y Cloc
- Gwella gwyrddni a’r gwaith tirlunio
- Sicrhau mwy o fannau cyhoeddus a llefydd i eistedd
- Gwella’r palmentydd a’r ardaloedd i gerddwyr
- Gwella’r cysylltiadau rhwng canol y dref a’r promenâd

Disgrifiodd rhai ymatebwyr y cynigion fel rhai “cadarnhaol” a “wedi’u dylunio’n dda”, gan groesawu’r cyfle i wella ymddangosiad y Rhyl.

### Pryderon ynghylch gwerth am arian

Un o'r themâu mwyaf cyffredin a godwyd oedd pryder ynghylch a oedd y cynllun arfaethedig yn cynrychioli gwerth da am arian. Cwestiynodd llawer o ymatebwyr a fyddai'r buddsoddiad mewn palmantau, gwaith tirlunio a gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn arwain at fanteision ystyrlon a hirdymor i'r dref.

Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y dylid defnyddio’r cyllid ar gyfer:

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

- Cefnogi busnesau lleol
- Lleihau trethi busnes
- Dod â defnydd yn ôl i adeiladau gweigion
- Creu cyfleoedd gwaith
- Gwella cyfleusterau tai a chymunedol

## Parcio a mynediad

Roedd parcio yn fater sylweddol a godwyd drwy’r ymgynghoriad. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd parcio hygyrch ac am ddim ar gyfer denu ymwelwyr a chefnogi busnesau lleol.

Dyma gamau allweddol a awgrymwyd:

- Cyflwyno parcio am ddim am gyfnod cyfyngedig
- Cynyddu nifer y lleoedd parcio yn agos at y Stryd Fawr
- Gwella cyfleusterau parcio ar gyfer pobl anabl a llefydd i ollwng pobl o’r car
- Cynnal mynediad i gerbydau i rannau penodol o ganol y dref
- Adolygu taliadau a chyfyngiadau parcio

## Cyflwr adeiladau a blaen siopau

Teimlai llawer o'r ymatebwyr bod ymddangosiad adeiladau a blaen siopau yn fater mwy arwyddocaol na chyflwr y palmentydd a'r mannau cyhoeddus. Codwyd pryderon am y canlynol:

- Adeiladau gwag ac adfeiliedig
- Blaen siopau mewn cyflwr gwael
- Paent yn pilio a ffenestri wedi torri
- Unedau manwerthu gwag
- Yr argraff negyddol a roddir i ymwelwyr sy'n dod i mewn i'r dref

# Adroddiad Cryno o'r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

Galwodd llawer o ymatebwyr am gamau cryfach i annog landlordiaid i gynnal a chadw eu heiddo ac i ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd.

## Diogelwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Roedd diogelwch yn thema arall a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro, gyda llawer o gyfranogwyr yn mynegi pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig gyda'r nos.

Dyma rai camau a awgrymwyd:

- Mwy o bresenoldeb heddlu ac asiantaethau gorfodi
- Gwell camerâu TCC
- Goleuadau stryd gwell
- Wardeniaid stryd neu "Siryfion y Dref"
- Mesurau i atal fandaliaeth a graffiti
- Dylunio seddi a mannau cyhoeddus i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol

## Cynnal a Chadw a Glendid

Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson bwysigrwydd cynnal unrhyw welliannau newydd i'r parth cyhoeddus. Roedd pryder y gallai planhigion newydd, seddi newydd a gwaith tirlunio ddirywio'n gyflym heb waith cynnal a chadw parhaus.

Roedd y prif faterion a godwyd yn cynnwys:

- Glanhau strydoedd a phalmentydd yn rheolaidd
- Gwagu biniau'n fwy aml
- Rheoli baw adar a gwylanod
- Cynnal a chadw gwelyau blodau a choed
- Darparu biniau caeedig neu finiau cywasgu
- Sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer gwaith cynnal a chadw hirdymor

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am arbenigedd garddwriaethol proffesiynol i gynnal a chadw ardaloedd wedi'u tirlunio.

## Cysylltiad â’r promenâd a thwristiaeth

Thema gref drwy’r ymgynghoriad oedd yr awydd i ailgysylltu canol tref y Rhyl â'i hunaniaeth arfordirol. Teimlai'r ymatebwyr bod canol y dref a'r promenâd ar wahân ar hyn o bryd, a bod hyn yn lleihau apêl y Rhyl fel cyrchfan i ymwelwyr.

Dyma rai camau a awgrymwyd:

- Gwella arwyddion i’r traeth
- Goleuadau gwell ar hyd y promenâd
- Atyniadau a digwyddiadau ar thema glan y môr
- Gwell mynediad rhwng y Stryd Fawr a'r promenâd
- Mwy o weithgareddau sy'n addas i deuluoedd
- Mwy o ddefnydd o'r arena digwyddiadau a’r Llyn Morol

## Adfywio economaidd

Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr na fyddai gwelliannau i'r parth cyhoeddus ar eu pennau eu hunain yn ddigon i adfywio'r Rhyl. Bu galw cryf am strategaeth economaidd ehangach sy'n cynnwys:

- Atynnu busnesau a siopau newydd
- Lleihau cyfraddau a rhenti busnes
- Cefnogi siopau annibynnol
- Creu swyddi a phrentisiaethau
- Datblygu tai uwchben siopau
- Cynnal digwyddiadau a marchnata rheolaidd i gynyddu nifer yr ymwelwyr

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

## Adborth cadarnhaol

Er i bryderon gael eu codi, cafodd yr ymgynghoriad adborth cadarnhaol hefyd ar sawl agwedd ar y cynnig, gan gynnwys:

- Ail-ddylunio ardal Tŵr y Cloc
- Creu mwy o fannau gwyrdd
- Gwella seddi ac ardaloedd i gerddwyr
- Gwella’r palmentydd a’r gwaith tirlunio
- Gwell hygyrchedd i bobl anabl
- Y potensial i greu amgylchedd canol tref mwy deniadol

## Pwyntiau i’r Cyngor eu Hystyried

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at sawl pwynt pwysig i’r Cyngor eu hystyried wrth i'r prosiect fynd rhagddo:

- Sicrhau bod y cynllun yn darparu buddion clir a mesuradwy i drigolion a busnesau
- Mynd i’r afael â phryderon ynghylch parcio a hygyrchedd
- Datblygu cynllun cadarn ar gyfer cynnal a chadw a glanhau mannau cyhoeddus newydd
- Ystyried mesurau ychwanegol i wella diogelwch a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Gweithio gyda landlordiaid i wella cyflwr adeiladau a blaenau siopau
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng canol y dref a'r promenâd
- Cyfuno gwelliannau i'r parth cyhoeddus gyda mentrau adfywio economaidd ehangach

# Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

## Casgliad

Mae'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar safbwyntiau a blaenoriaethau trigolion, busnesau a budd-ddeiliaid ynghylch y gwelliannau arfaethedig i'r parth cyhoeddus yng nghanol tref y Rhyl.

Mae'r adborth yn dangos bod cefnogaeth i fuddsoddi yn y Rhyl ac i wella golwg canol y dref. Fodd bynnag, dangosodd yr ymatebwyr yn glir hefyd y dylai gwelliannau i'r parth cyhoeddus ddod law yn llaw â chamau ehangach i fynd i'r afael â phroblemau o ran parcio, diogelwch, cynnal a chadw, cyflwr adeiladau, cefnogi busnesau ac adfywio economaidd.

Bydd y Cyngor yn ystyried canfyddiadau'r broses ymgysylltu hon ochr yn ochr ag ystyriaethau technegol, ariannol a strategol wrth i'r prosiect gael ei ddatblygu ymhellach.